**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Dydd Llun, 24 Ebrill 2017**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Mawrth, 25 Ebrill, 2017. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Mercher, 3 Mai, 2017. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Iau, 4 Mai 2017.

**Presennol**: Y Cynghorwyr R Dew, K P Hughes, A M Jones, H E Jones, J A Roberts, Alwyn Rowlands a Ieuan Williams (Cadeirydd)

**Hefyd yn Bresennol**: Y Cynghorydd Llinos Medi Huws.

**Ymddiheuriadau**: Dim

(10:00 y bore tan 10:20 y bore)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 Cofnodion** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 20 Mawrth 2017 fel cofnod cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion - Panel Rhiant Corfforaethol** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD mabwysiadu cofnodion drafft y cyfarfod o'r Panel Rhiant Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2017.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod o fis Mai i fis Rhagfyr 2017 fel y cafodd ei chyflwyno.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau trefniadau atebolrwydd a chynllunio ymlaen.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Dysgu |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer eu cyhoeddi a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Ebrill, 2017.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio gyda gofyn statudol sy'n codi o Adran 26 Deddf Gofal Plant 2006.** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Gwneud Newidiadau i'r Cyfansoddiad i Adlewyrchu Gofynion mewn perthynas â'r Pwyllgor Cynllunio yn sgil Rheoliadau Diweddar**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor llawn ei fod yn gwneud y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a nodir ym mharagraff 3.3.1 yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cydymffurfio â Rheoliadau** |

| | |
|---|---|
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Nac oes.  Mater i'w ystyried gan y Cygor llawn.** |